Eisteddfod Llandudoch 2021

Cafwyd prynhawn o weithgareddau ar Facebook ar Ddydd Sadwrn, Mai 15fed er mwyn nodi dyddiad Eisteddfod Llandudoch, a ohiriwyd fel digwyddiad byw eleni eto. Cafwyd eitemau cerddorol a darluniau oddi wrth blant Ysgol Llandudoch, a pherfformiadau gan rai unigolion grwpiau.

Yr unig gystadlu oedd ar y cystadlaethau llenyddol agored, ac i ddysgwyr. Hefyd, bu cystadlu ar gystadlaethau penodol i rai a fynychodd weithdai ysgrifennu Cymdeithas Eisteddfodau Cymru gyda Ceri Wyn Jones a Bethan Gwanas.

Braf yw gallu dweud bod cystadlu brwd iawn wedi bod ar rhain, a difyr oedd gwrando ar y beirniaid Eurig Salisbury, Elwyn Hughes, a Philippa Gibson yn traddodi eu beirniadaethau ar Facebook. Diolch o galon iddyn nhw am eu gwaith caled, i'r holl gystadleuwyr am anfon deunydd i mewn, ac i'r rhai a gyfrannodd eitemau.

Canlyniadau Llenyddol

Cystadlaethau Agored

1. Y Gadair – Steffan Phillips, Caerdydd ac Aberteifi
2. Telyneg – Hannah Roberts, Llandaf, Caerdydd
3. Penillion Telyn/Tribannau – Trefor Huw Jones, Llanfarian, Aberystwyth.
4. Englyn – Philippa Gibson, Pontgarreg, Ceredigion
5. Cerdd Gynganeddol – Nia Llewelyn, Drefach Felindre
6. Limrig – Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys. Rhondda Cynon taf
7. Stori fer – Gwen Evans, Rhuthun

Cystadlaethau Dysgwyr

8. Dysgwyr Lefel Mynediad – Kathy Sleigh, Arberth, Sir Benfro
9. Dysgwyr Lefel Sylfaen - Jane Maudsley, Trefdraeth, Sir Benfro
10. Dysgwyr Lefel Canolradd – dim cystadlu
11. Dysgwyr lefel uwch – Alan Iwi, Didcot

Cystadlaethau Gweithdai Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

12. Gweithdy Cynganeddu – Lynne Blanchfield, Aberystwyth
13. Gweithdy Rhyddiaith Canolradd – Bethan Logan, Talgarth, Powys
14. Gweithdy Rhyddiaith Uwch – Rhannu'r wobr rhwng Margaret Phillips, landisilio, Sir Benfro a Christopher Schenk, Eynsham, Witney